# CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 10fed, 2013 am 2 o'r gloch yn Tŷ William Jones, Llangefni**

**PRESENNOL:**
Meirion Hughes (Cadeirydd)
Sarah Andrews, Iechyd Cyhoeddus
Dafydd Evans, Coleg Menai
Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd
Geraint George (GG), Cyngor Gwynedd
Huw Jones (HJ), Cyngor Sir Ynys Môn
Clare Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
John R. Jones, Medrwn Môn
Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru
Trystan Pritchard (TP), Uwch Reolwr Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Aneurin Phillips, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru
Wyn Thomas, Prifysgol Bangor
Harry Thomas, Cyngor Gwynedd
Bethan Williams, Mantell Gwynedd
Terry Williams, Gwasanaeth Tân ac Achub

**YN MYNYCHU:**
Rhian Bayley-Hughes (Cofnodion), Partneriaeth Gwynedd a Môn
Louise Bayliss-Chapman, (Sylwedydd) Llywodraeth Cymru

---

## 1 CYFLWYNO'R CADEIRYDD A'R AELODAU

Cafwyd cyflwyniad byr gan Meirion Hughes a gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLL) gyflwyno eu hunain.

## 2 PAPUR ADLEWYRCHU

Cyflwynodd Trystan Pritchard (TP) y papur ymarfer gwerthuso, myfyrio a'r cyfeiriad i'r dyfodol i aelodau'r BGLL a'r cefndir i'r ddogfen i osod yr hinsawdd a'r gobeithion ar gyfer dyfodol y BGLL.

Ymhlith y trafodaethau rhoddwyd pwyslais ar yr her i bawb feddwl y tu hwnt i fuddiannau sefydliadol a rhoddwyd pwyslais ar y BGLL i allu cydweithio ag eraill cymaint â phosib i gael effaith fanteisiol ar y gymuned.

**3 CYTUNDEB CYDWEITHIO**

Rhoddodd TP cefndir y ddogfen a rhoddwyd crynodeb o'r egwyddorion. Mae'r Bwrdd Gwireddu eisoes wedi derbyn y cytundeb. Gofynnwyd i'r BGLL dderbyn y cytundeb cydweithio…

Sylwadau:

- Pwynt 1.1 - angen crynhoi ysbryd y BGLL - ei brif bwrpas yw ychwanegu gwerth o weithio gyda'n gilydd i daclo materion.
- Pwynt 1.3 - rhestru yn ôl y flaenoriaeth
- Rhaid i bwrpas y grwpiau thematic fod yn glir; rhaid gwneud y pwynt bod gwaith y partneriaethau yn parhau ond mewn ffurf wahanol

**Gyda'r sylwadau uchod roedd pawb yn derbyn y ddogfen.**

**4 SESIWN DATBLYGU CYFEIRIAD A BLAENORIAETHAU**

Cyflwynodd TP gyflwyniad ar blaenoriaethu ac edrych i'r dyfodol, gofynnwyd i aelodau'r BGLL i gysidro dyfyniadau sy'n deillio o'r ymarferiad gwerthuso. Ymhlith y trafodaethau awgrymwyd y BGLL:

*a) "Mae'n rhaid i bawb feddwl tu hwnt i fuddiannau sefydliadol ermwyn gyflawni'r buddion mwyaf rhaid":*

- BGLL i gymryd perchnogaeth a chydweithio
- Ymrwymo i wneud gwahaniaeth i'r cyhoedd / sicrhau ymyrraeth gynnar
- Gwneud asesiad impact
- Defnyddio ethos RBA
- BGLL i gael calendr cynllunio strategol
- BGLL i gyfarfod yn gyson

b) *"Y problemau a gawsom efo cynlluniau strategol yn y gorffennol yw ein bod yn ceisio gwneud popeth dros bawb. Dylem gael ychydig o flaenoriaethau critigol a gwneud yn sicr ein bod yn cyflawni'r rheini ar gyfer y gymuned"*

- Trafnidiaeth yn broblem sy'n cael ei godi yn aml asiantaethol
- Tlodi yn cael effaith ar bopeth

- BGLL angen ‘enillion cyflym’ yn ogystal â blaenoriaethau hir dymor.

c) *“Mae cyfrifoldeb anferth arnom i gyflawni drwy’r holl sefydliadau nawr. Rhaid i ni wneud yn siŵr yr eir i’r afael ag anghenion lleol, ac y rhoddir adnoddau sy’n prinhau yn y llefydd mae eu hangen.”*

Gofynnwyd i aelodau’r BGLL i gysidro sut all y BGLL fod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio adnoddau, cyllid ac asedau

- Angen i awdurdodau i weithio ar y cyd a bod yn hyblyg
- Sicrhau sgiliau / hyfforddi

d) *“Yn y gorffennol dim ond y pethau roedd pawb yn cytuno arnynt, pethau nad oedd yn ddadleuol rydym wedi’u gwneud, ond ai dyma wir bwrpas y fforwm hwn? Lle mae’r budd go iawn i’n cymunedau?”*

- Rhaid newid y diwylliant - pethau am fod yn anodd os ydy’r BGLL am wneud gwahaniaeth i drigolion
- Rhaid dod a phenderfyniadau anodd i'r BGLL
- Pawb i’r afael â’r heriau

**GWEITHRED(AU) YN CODI:**

- **Atgoffa’r asiantaethau o’r oblygiadau cydweithio**

## 5 ARGYMHELLION AR FLAENORIAETHAU O’R GRWPIAU THEMATIG

Rhoddwyd TP cefndir i’r ddogfen a gofynnwyd i’r BGLL gynnig arweiniad ar y blaenoriaethau ble mae modd ychwanegu gwerth neu ble mae angen sylw dwys. Awgrymiadau yn dilyn sgwrs:

- Elfennau tlodi yn gryf
- Rhaid gweu yn hytrach na datblygu blaenoriaethau o’r newydd.
- Gwneud yn siŵr nad ydy blaenoriaethau Môn a Gwynedd yn cael eu colli yn ystod y cyfnod cytuno blaenoriaethau ar y cyd.
- Awgrymwyd fod yr iaith Gymraeg yn lle clir i ddechrau am ei fod yn effeithio’r holl asiantaethau o fewn y ddwy sir

**GWEITHRED(AU) YN CODI:**

- **Bwrdd Gwireddu i edrych ar 2 neu 3 blaenoriaeth i weithio ar eleni**

## 6 STRWYTHURAU CEFNOGI’R BGLL

Rhennir papur yn dangos strwythurau cefnogi’r BGLL er gwybodaeth.

## 7 COFNODION BWRDD GWIREDDU

Rhennir cofnodion y Bwrdd Gwireddu er gwybodaeth.

## 8 AMSERLEN DATBLYGU CYNLLUN

Roedd pawb yn hapus hefo'r amserlen datblygu.

## 9 BIL CYNALADWYEDD LLYWODRAETH CYMRU

Y BGLl i ymateb i'r Bil erbyn canol Ebrill, 2013.

## 10 MATERION CYNLLUNIO / GWEITHREDU AELODAU

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r BGLL i rannu unrhyw faterion cynllunio / gweithredu.

## 11 UNRHYW FATER ARALL

Rhoi cynnig i rywun o Cyfoeth Naturiol Cymru fynychu'r BGLL

**GWEITHRED(AU) YN CODI:**
**TP i weithred**

## 12 DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF

**GWEITHRED(AU) YN CODI:**

- **RBH i drefnu dyddiadau ar gyfer y 12 mis nesaf**